Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**
—
Welsh Parliament
**Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee**

Elin Jones AS
Llywydd

17 Rhagfyr 2020

Annwyl Lywydd,

**Llywodraethu amgylcheddol ar ôl trefniadau pontio'r UE**

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 19 Tachwedd 2020, yn gofyn am farn y Pwyllgor ar y materion a godwyd gyda chi gan gynrychiolwyr o Gyswllt Amgylchedd Cymru ('WEL').

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr yn nhrefniadau llywodraethu amgylcheddol Cymru yn y dyfodol, ac mae wedi gwneud gwaith helaeth yn y maes polisi hwn. Cyhoeddwyd adroddiad rhagarweiniol gennym ym mis Mehefin 2018, ac yna adroddiad manwl ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y cynigion o ran polisi ym mis Hydref 2019. Roedd yr adroddiadau hyn yn edrych yn fanwl, ymhlith pethau eraill, ar fod angen i drefniadau dros dro gael eu rhoi ar waith ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu, ac y dylai'r rhain barhau nes sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol ar gyfer Cymru.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am wybodaeth am y trefniadau dros dro, gan gynnwys rôl a chyfrifoldebau Asesydd Diogelu'r Amgylchedd dros dro. Wrth roi tystiolaeth i ni ar 10 Rhagfyr 2020, nid oedd y Gweinidog yn gallu rhoi esboniad ar sut y bydd y system gwynion yn gweithredu'n ymarferol, gan gynnwys sut yr ymdrinnid â chwynion yn erbyn Llywodraeth Cymru ynghylch torri cyfraith amgylcheddol posibl. Esboniodd y Gweinidog y byddai'r Trefnydd yn cwrdd â chi cyn bo hir i drafod pa rôl a allai fod gan y Senedd wrth ystyried cwynion o'r fath.

Er na fyddem yn dymuno achub y blaen ar ganlyniad eich trafodaethau, hoffem dynnu eich

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

sylw at y materion a ganlyn.

Roedd ein sesiwn dystiolaeth ddiweddar â chynrychiolwyr o’r sector amgylcheddol yn awgrymu eu bod yn awyddus i'r Senedd chwarae rôl wrth ystyried cwynion yn erbyn Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn deillio, yn rhannol o leiaf, o bryderon y gall torri cyfraith amgylcheddol posibl gan Lywodraeth Cymru fynd heb ei wirio nes bod trefniadau llywodraethu parhaol ar waith. Rydym ninnau yr un mor bryderus â’r sector amgylcheddol. Fodd bynnag, dylid ystyried yn fanwl sut y gallai'r Senedd gyflawni'r gwaith hwn. Mae hyn yn arbennig o anodd pan nad oes dim manylion ar gael ynghylch sut y bydd y trefniadau'n gweithio'n ymarferol.

Mewn llawer o achosion, y llysoedd sy’n ystyried unrhyw achos honedig o dorri cyfraith amgylcheddol gan gorff cyhoeddus, drwy gynnal adolygiad barnwrol o benderfyniad a wnaed ganddynt. Mae gan y llysoedd yr arbenigedd priodol i gydbwyso blaenoriaethau sy’n cystadlu â’i gilydd o ran y partïon ym mhob achos, ac i wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid dileu penderfyniad penodol oherwydd ei fod yn anghywir yn ôl y gyfraith. Mae mynd ar drywydd materion drwy broses y llys fel hyn yn ddrud, fodd bynnag, ac mae’n gofyn am gyfarwyddyd gan gynghorwyr proffesiynol a gall gymryd misoedd lawer, neu hyd yn oed flynyddoedd, i ddatrys anghydfodau.

Pe bai gan y Senedd rôl yn ymdrin â chwynion o'r fath, byddai angen cyflwyno gweithdrefnau newydd a manwl. Rydym yn rhagweld, o ystyried natur arbenigol a thechnegol y gwaith hwn, y byddai goblygiadau i’r Comisiwn o ran adnoddau i ddarparu’r gefnogaeth briodol.

Gobeithio y bydd yr uchod yn ddefnyddiol i chi yn eich trafodaeth gyda'r Trefnydd ac wrth lunio'ch ymateb i Gyswllt Amgylchedd Cymru (WEL).

Yn gywir,

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.